Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Froncysyllte, Wrecsam) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru, wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn i ddiogelu defnyddwyr ffyrdd a'r gweithlu tra gwneir gwaith i adnewyddu wyneb y gerbytffordd ar Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), ger Froncysyllte, ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Daw'r cyfyngiadau a'r gwaharddiad canlynol y codir arwyddion priodol yn eu cylch, i rym am 06:00 o'r gloch ar 6 Chwefror 2012 tan 18:00 o'r gloch ar 17 Chwefror 2012 neu hyd nes symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro.

Effaith y Gorchymyn fydd:

i. gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya ar hyd y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn, pan ddynodir hynny gan arwyddion traffig;

ii. gosod terfyn cyflymder dros dro o 10 mya ar hyd y darn o'r gefnffordd pan fo gwaith confoi yn digwydd ar unrhyw ddiwrnod penodol yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

iii. gwahardd dros dro bob cerbyd rhag goddiweddyd yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Er mai yn ystod y dyddiadau a bennir uchod yn unig y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod hwyaf o 6 mis, fel darpariaeth wrth gefn pe bai angen ad-drefnu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau annisgwyl.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Dewiser: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2012).

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn hwnnw o'r gefnffordd ger Froncysyllte ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r dwyrain o'r arwyddion datgyfyngu sydd i'r gorllewin o Froncysyllte, hyd at bwynt 500 metr i'r gorllewin o'r arwyddion datgyfyngu a enwyd.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A5 Trunk Road (Froncysyllte, Wrexham) (Temporary Traffic Restrictions and Prohibition) Order 2012

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to safeguard the road user and the workforce whilst carriageway resurfacing works are carried out on the London – Holyhead Trunk Road (A5) (hereinafter referred to as "the trunk road"), near Froncysyllte, in the County Borough of Wrexham.

The following restrictions and prohibition, the extent of which will vary and be sign posted accordingly, will come into force at 06:00 hours on 6 February 2012 until 18:00 hours on 17 February 2012 or until temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order will be to:

i. impose temporarily a 40 mph speed limit along the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice when indicated by traffic signs;

ii. impose temporarily a 10 mph speed limit when convoy working is in force on any given day in the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice;

iii. temporarily prohibit all vehicles from overtaking in the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work be required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Assembly Government's Website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2012).

M D BURNELL
Orders Branch, Transport, Welsh Government

SCHEDULE

That length of the trunk road near Froncysyllte, in the County Borough of Wrexham, which extends from a point 50 metres east of the derestriction signs to the west of Froncysyllte to a point 500 metres west of the said derestriction signs.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE